

Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad Monitro

Blynyddol yr Iaith Gymraeg

2019-20

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Cynnwys

Rhagarweiniad	4
Datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn	5
Pencampwyr Iaith Gymraeg	5
Eisteddfod Staff	5
Côr staff y Cyngor – Côr Sain y Sir	5
Paned a Sgwrs	6
Dydd Owain Glyndŵr	6
Anturiaethau Cled y Corrach	6
Ymgyrch 'Mae gen i hawl'	7
Dydd Santes Dwynwen	8
Dysgwr Cymraeg y mis	8
Diwrnod Shwmae Sumae	8
Dydd Miwsig Cymru	9
Gweithio mewn partneriaeth	9
Cynllunio'r Gweithlu	9
Gwersi Cymraeg	9
Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg	10
Argymhellion ar gyfer gwella/cynnydd pellach	12
Teclyn negeseuon iaith a negeseuon e-bost	12
Strategaeth Iaith Gymraeg	13

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Cadw Cofnodion	13
Cwynion	13
Gweithle ddwyieithog	13
Cortynnau gwddf iaith Gwaith a dysgwyr	13
Safonau Iaith Gymraeg	14
Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaeth.	14
Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu yn 2019/20	15
Cynnydd gyda fframwaith 'Mwy na Geiriau'	16
Rhoi gwybod i holl staff mewnol a'r gwasanaethau a gomisiynwyd am y 'Cynnig Rhagweithiol'	16
Cynllunio'r gweithlu gan gynnwys recriwtio staff sydd a sgiliau iaith Gymraeg	17
Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws gweithfannau Gofal Cymdeithasol	17
Sgiliau Iaith Gymraeg Staff	18
Canlyniadau Corfforaethol yn unig (ac eithrio Ysgolion)	18
Canlyniadau Staff Ysgolion yn unig	19
Recriwtio – Swyddi â hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn	19
Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd	20
Atodiad 1 - Ymwybyddiaeth iaith (yn cynnwys ysgolion)	20
Atodiad 2 - Amrywiol gyrsiau a gynhaliwyd yn Gymraeg	21
Cynllun Gweithredu Grŵp Strategol y Gymraeg	21
Prif lwyddiannau / uchafbwyntiau:-	21

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn bositif i'r Safonau Iaith ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Iaith Gymraeg. Nid yw'r ymrwymiad hwnnw wedi newid ac rydym yn hollol ymrwymedig at chwarae ein rhan tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd).

Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Gorweddai cyfrifoldeb strategol am yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych gyda Thîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Nicola Stubbins, a'r Aelod Arweiniol gwleidyddol yw'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a oedd yn gyfrifol am Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd dros gyfnod yr adroddiad hwn.

- Mae'r gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg yn gyfrifoldeb yr Arweinydd Tîm ar gyfer Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd, gyda rôl Swyddog Iaith Gymraeg strategol hefyd wedi'i chyflwyno i'r Cyngor ar ddechrau 2018.
- Roedd prif sylw'r Cyngor yn 2019/20 ar barhau i weithredu Safonau'r Gymraeg yn yr awdurdod, gan weithio'n agos â Phencampwyr y Gymraeg ar draws y sir i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio gyda'r 167 o Safonau o dan y penawdau Cynllunio Gwasanaethau, Creu Polisiâu, Hyrwyddo a Chadw Cofnodion.
- Yn ogystal â'r Safonau newydd ar gyfer y Gymraeg, mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Fframwaith 'Mwy Na Geiriau' a'r Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg (rhoddir diweddariad ar y gwaith hwn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn

Mae nifer o brosiectau allweddol wedi cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y Safonau Iaith yn cael ei cyflwyno. Dyma rai o'r prosiectau hynny:

Pencampwyr Iaith Gymraeg

Mae gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor Bencampwr y Gymraeg gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob tri mis i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion gorau a gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth trylwyr o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig gan gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth a siopwr cudd ynghyd â gweithgareddau eraill i gydweithwyr a dysgwyr.

Eisteddfod Staff

Cynhaliodd y Cyngor ei ail Eisteddfod ar Fawrth y 6ed fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddathlu diwylliant Cymru i gyd fynd â'n Strategaeth Iaith Gymraeg. Daw ar adeg pan fo llawer o sylw ar y Gymraeg a'r ffaith fod Eisteddfod yr Urdd yn dychwelyd i'r sir mis Mai 2021 bellach, gan fod Eisteddfod 2020 wedi'i gohirio. Unwaith eto eleni mae'r ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd wedi bod yn wych, gyda 62 aelod o staff wedi cofrestru i gystadlu. Roedd y cystadlaethau'n cynnwys Ysgrifennu limrig, addurno cacen, rysâit y beirniad (Bara Brith), coginio pryd bwyd yn defnyddio cennin, tapas yn defnyddio cynhwysyn Cymreig, gwau neu wnïo, ffotograffiaeth, creu brawddeg allan o'r gair CENNIN PEDR, Gosod Blodau yn ogystal â dwy gystadleuaeth byw eleni sef Stori a Sain a'r Chôr.

Côr staff y Cyngor – Côr Sain y Sir

Mae'r côr yn parhau i fod yn hynod boblogaidd ac mae 8 aelod newydd sy'n ddysgwyr Cymraeg wedi ymuno dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n dod â'r cyfanswm i 22 aelod. Mae'r côr ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn bennaf er mwyn hybu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ond yn benodol er mwyn rhoi'r cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg trwy ddysgu caneuon traddodiadol Cymreig, ond mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn aelodau i gynorthwyo â'r dysgu. Maen nhw wedi perfformio mewn dau ddigwyddiad dros y flwyddyn

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

ddiwethaf sef Gwasanaeth Carolau'r Cyngor yn Eglwys Santes Fair, Dinbych, ac hefyd wedi agor yr Eisteddfod Staff.

Paned a Sgwrs

Rydym wedi sefydlu sesiwn Paned a Sgwrs yn Neuadd y Sir, Rhuthun a Thŷ Russell, Y Rhyl ar gyfer staff sy'n dymuno ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol. Mae cael sgwrs sydyn dros baned o goffi yn helpu pobl wella eu sgiliau cymdeithasol, ffurfio perthynas a gwella eu lles meddyliol a chorfforol. Byddwn yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn ystod amser cinio i wneud amryw o weithgareddau i annog staff i ddefnyddio a meithrin sgiliau eu Cymraeg. Mae gennym glwb darllen yn digwydd unwaith y mis o fewn sesiwn Paned a Sgwrs ble byddwn yn darllen llyfrau o'r gyfres 'Amdani' sef llyfrau ar gyfer dysgwyr Cymraeg, ac yn rhoi'r cyfle iddynt drafod y llyfr a lleisio eu barn yn Gymraeg.

Dydd Owain Glyndŵr

Eleni er mwyn dathlu dydd Owain Glyndwr, gwnaethom fideo i ddangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol o fewn y Sir yn ymwneud â'i hanes. Mae'r lleoedd hyn yn cynnwys Glyndyfrdwy ble'r oedd un o ddau brif lys Glyndŵr yn ogystal â'r ffaith mai o amgylch yr ystadau yma y cymrodd Glyndŵr ei enw; Mwnt yn Llidiart-y-Parc ger Glyndyfrdwy ble cafodd ei gyhoeddi'n dywysog Cymru; Bryn Saith Marchog ble gafodd ffrae gyda Syr Reginald Grey (Arglwydd Dyffryn Clwyd yn Rhuthun) yn ymwneud â thir cyffredin a ddatblygodd i fod yn wrthryfel dros annibyniaeth i Gymru; Rhuthun ble cafodd y dref ei llosgi i'r llawr heblaw am y castell; ymosodwyd hefyd ar Ddinbych a Rhuddlan, ac mae plac ar hen adeilad Natwest yn Rhuthun a gafodd ei ddadorchuddio gan Dafydd Iwan yn 2000 er mwyn nodi 600 mlynedd Glyndŵr. Cawsom adborth gadarnhaol iawn gan staff a llawer yn nodi nad oeddynt yn ymwybodol pa mor arwyddocaol oedd Sir Ddinbych yn hanes Glyndŵr. Byddwn yn rhannu'r fideo yma i'n staff ar ddydd Owain Glyndŵr yn flynyddol yn ogystal â'i rannu ar ein gwefannau cymdeithasol. [Gwylwch fideo Owain Glyndŵr ar youtube yma.](#)

Anturiaethau Cled y Corrach

Daeth Cled y Corrach Cymraeg heibio'r Cyngor eleni er mwyn cael pawb mewn i ysbryd y Nadolig. Fersiwn Gymraeg tebyg i *Elf on the Shelf* oedd Cled ble'r oedd yn mynd o

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

amgylch gwahanol leoliadau yn Sir Ddinbych i hyrwyddo'r Gymraeg. Dechreuodd yn Neuadd y Sir, Rhuthun a phwy bynnag oedd yn dod o hyd iddo oedd yn cael mynd â fo am y dydd i wneud gweithgareddau Cymraeg. Roedd yr aelod o staff yno wedyn yn gorfod gadael Cled yn rhywle i aelod o staff arall ei ddarganfod gan adael cliwiau o'i leoliad ar ein newyddlen ddyddiol. Cafodd Cled anturiaethau o bob math megis mynd ar wyliau i Aberdaron a Phortmeirion, darllen llyfr Cymraeg gyda plant aelod o staff, ymweld â chartrefi gofal y Sir, delio â ymholiadau Cymraeg mewn canolfan hamdden, cynorthwyo i ateb galwadau ffôn yn y Gymraeg yn y Ganolfan alwadau a llawer mwy. Buan iawn daeth Cled yn boblogaidd iawn o fewn y Cyngor ac roedd llawer o staff yn cysylltu i holi os y cawn nhw Cled am y dydd! Gweithgaredd fach syml ond effeithiol dros ben. Mae'n bwysig dangos i staff fod hwyl i gael trwy'r Gymraeg hefyd ac nad ydynt yn ei weld fel iaith gorfforaethol yn unig.

Ymgyrch 'Mae gen i hawl'

Am y tro cyntaf eleni ar 6 Rhagfyr 2019, bu sefydliadau cyhoeddus ar draws Cymru yn cynnal 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg'. Diwrnod yw hwn i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae sefydliadau'n eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i geisio cynyddu'r nifer sy'n dewis eu defnyddio. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r ymgyrch genedlaethol gael ei chynnal. Dewiswyd y dyddiad er mwyn nodi'r dyddiad y cafodd y ddeddfwriaeth iaith ei phasio gan y Cynulliad yn 2010. Y nod yw gwneud hon yn ymgyrch flynyddol. Mae'r ymgyrch farchnata yn sôn am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd yn ogystal â staff y Cyngor. Yn hytrach nag ymgyrch undydd fe wnaethom benderfynnu ei gwneud yn un dros wythnos fel nad oeddym yn rhoi gormod o wybodaeth allan ar yr un pryd gan fod peryg colli rhai o'r negeseuon.

Roedd gennym oddeutu 3 neges allanol yn cael eu postio ar ein cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol a negesuon mewnol yn cael eu rhannu â'n staff gan nodi'r gwahanol hawliau sydd ganddynt. Un o'r negesuon allanol oedd yn profi'n effeithiol oedd llun o aelod o staff o fewn gwahanol wasanaethau oedd yn medru'r Gymraeg. Roedd hi'n braf darllen negesuon caredig gan aelodau o'r cyhoedd am ein staff o fewn y Cyngor, a sut mae'r aelod yno o staff wedi gwneud eu profiad nhw o ddefnyddio'r Gymraeg yn un cadarnhaol.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Dydd Santes Dwynwen

Trefnwyd cystadleuaeth eleni fel rhan o ddathliadau dydd Santes Dwynwen. Fe wnaethom guddio 6 chalon gyda llythyren arnynt o amgylch tri prif leoliad y Cyngor - Neuadd y Sir, Caledfryn a Thŷ Russell - ac roedd y llythrennau'n anagram o'r gair CARIAD (yr un gair ym mhob lleoliad). Pwy bynnag oedd yn cael y gair yn gywir oedd fewn am siawns i ennill gwobr. Cawsom ymateb dda iawn gyda dros 30 aelod o staff yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth. Yn ogystal â hyn, roeddym wedi creu posteri yn nodi termau Cymraeg sy'n berthnasol ar gyfer dydd Santes Dwynwen gyda seing i gyd-fynd â'r gair.

Dysgwr Cymraeg y mis

Rydym wedi bod yn dewis un Dysgwr Cymraeg y mis o fewn y Cyngor i siarad am eu taith iaith ar fideo. Maent yn siarad am beth/pwy wnaeth eu hysgogi i ddysgu Cymraeg yn ogystal â sut mae siarad Cymraeg yn fantais iddynt o fewn eu swydd. I gyd-fynd â'r fideo rydym yn cynnwys bywgraffiad y dysgwr sy'n nodi eu taith iaith yn fanylach. Bwriad Dysgwr Cymraeg y mis yw i ysbrydoli ac annog staff i ddysgu Cymraeg ac mae wedi gweithio'n dda hyd yn hyn gyda chanmoliaeth i'r dysgwr Cymraeg gan aelodau eraill o staff. Mae'n braf gweld staff yn canmol a chefnogi ei gilydd.

Diwrnod Shwmae Sumae

Unwaith eto eleni buom yn rhan o ddathliadau diwrnod Shwmae Sumae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw i hybu'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda shwmae neu su'mae. Nôd y diwrnod yw dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – yn siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Eleni fe wnaethom greu fideo i fynd law yn llaw â chystadleuaeth cwpan rygbi'r byd. Roedd gennym wisg masgot draig goch o'r enw Dewi Draig a oedd yn cael ei ffilmio yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Roedd hefyd yn pasio pêl rygbi i aelodau eraill o staff wrth ddweud "shwmae" neu "sumae" wrthynt, a rheiny wedyn yn gwneud yr un peth wrth basio'r bêl ymlaen. Y syniad tu ôl i hyn oedd mai'r iaith Gymraeg oedd y bêl rygbi ac ein bod yn pasio'r iaith Gymraeg ymlaen. [Gwyliwch fideo diwrnod Shwmae Sumae 2019 ar youtube yma.](#)

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Dydd Miwsig Cymru

Buom yn dathlu dydd Miwsig Cymru eto eleni hefyd gan greu rhestr chwarae arbennig o gameuon Cymraeg ac annog staff i'w chwarae yn ystod y dydd yn y swyddfa, car, ac mewn derbynfeydd. Mae cerddoriaeth anhygoel yn cael ei greu yn y Gymraeg ac mae'r diwrnod yn dathlu'r gerddoriaeth hynny.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r Cyngor yn bartner gweithgar o'r Bartneriaith. Mae'r Fforwm yn cynnwys nifer o sefydliadau, lleol a chenedlaethol, sy'n gweithio tuag at hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn strategol yn Sir Ddinbych.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bartneriaith wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar fapio gweithgareddau Cymraeg ar draws y sir. Arweiniwyd y gwaith hwn gan y Cyngor ac er iddo roi darlun clir bod nifer o ddigwyddiadau wedi'u lleoli o amgylch y prif drefi, roedd angen gwaith ymchwilio pellach i nodi gweithgareddau mewn cymunedau mwy gwledig. Byddai hyn yn rhoi darlun clir o ble y dylai'r Bartneriaith ganolbwyntio ei ymdrechion. Rydym yn y broses o greu cynllun peilot ar Langollen fel ein bod yn medru gweithredu'r un cynllun yma o fewn lleoedd eraill.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i Fenter Iaith Sir Ddinbych drwy grant blynyddol a'r Urdd yn lleol. Defnyddir cyllid yr Urdd i gyflogi swyddog sy'n helpu'r awdurdod i drefnu gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc ar draws y sir.

Cynllunio'r Gweithlu

Mae disgwyl i bob gwasanaeth greu dogfen Cynllunio'r Gweithlu ac mae disgwyl i'r gwasanaethau gysidro os oes ganddynt ddigon o siaradwyr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth gwbl ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael eu herio gan yr Uwch Dim Rheoli a chynghorwyr parthed cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith.

Gwersi Cymraeg

Dyma'r nifer o aelodau staff y Cyngor fynychodd wersi Cymraeg drwy gynllun 'Cymraeg Gwaith' gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol:-

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Lefel	Nifer
Mynediad	12
Sylfaen	3
Canolradd	11
Uwch	0
Hyfedredd	0
Nant Gwrtheyrn (preswyl)	4
Cyfanswm	26

Bellach mae cyrsiau blasu Cymraeg 10 awr ar-lein ar gael i'r rheiny sydd eisieu dechrau ar eu taith iaith. Mae'r cyrsiau hyn yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion pob dydd ac maen nhw ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim. Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau sef y sector iechyd, gofal, gwasanaethau cyhoeddus, athrawon, penaethiaid, twristiaeth, manwerthu, twristiaeth Cymru, sefydliad y marchod a gwybodaeth am y Gymraeg sydd wedi'i deilwra ar gyfer Darparwyr Gofal Plant.

Dyma'r nifer o staff sydd wedi dechrau/gorffen y cyrsiau ar-lein:-

Cwrs	Nifer
Croeso	42
Croeso nôl	10
Gwella Cymraeg gwaith	6
Cyfanswm	58

Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg

Rydym wedi cyflwyno Fframwaith newydd sydd yn ffordd syml i staff hunan asesu eu sgiliau iaith yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, ysgrifennu, siarad a

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

deall) y gallent eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ffordd effeithiol o fedru monitro pa lefel o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd a pha gwrs y bydd gweithwyr ei angen er mwyn symud i'r lefel nesaf.

Lefel 0 :

Dim lefel bresennol o Sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd.

Lefel 1: Mynediad

Gallu ynganu enwau lleoedd/enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir.

Gallu cyfarch a chyflwyno pobl eraill yn Gymraeg

Gallu dangos cwrteisi ieithyffol trwy agor a chau sgwrs

Gallu deall a throsglwyddo manylion personol.

Lefel 2: Sylfaen

Gallu deall hanfod sgysiau yn Gymraeg

Gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol e.e. tasgau gweinyddol neu arferol syml.

Deall a throsglwyddo cyfarwyddiadau a chyfeiriadau.

Lefel 3: Canolradd

Gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi i Saesneg mewn sgwrs i roi gwybodaeth fanwl.

Gallu disgrifio pobl a lleoliadau.

Lefel 4: Uwch

Gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn eu maes gwaith a dadlau o blaid neu yn erbyn achos.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Gallu delio â phobl yn Gymraeg yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd ond yn troi I Saesneg wrth ddelio â sefyllfaoedd cymhleth.

Lefel 5: Hyfedredd

Gallu delio'n effeithiol gyda sgwrs gymhleth a chwestiynau yn Gymraeg.

Gallu addasu arddull yr iaith i weddu pob sefyllfa ac angen.

Bydd dilyn y fframwaith hwn yn ein galluogi i gefnogi gweithwyr ar eu taith iaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. (Mae'r canlyniadau i'w gweld yn atodiadau 1 a 2)

Rydym hefyd wedi asesu pob swydd o fewn y Cyngor, yn dilyn y fframwaith uchod, o ran pa lefel o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer y swydd benodol honno. Ni fydd yr un swydd yn cael ei hysbysebu fel Cymraeg dymunol gan y bydd pob person angen o leiaf lefel 1 mewn sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y swydd. Felly mewn ffordd, mae Cymraeg yn "hanfodol" ar gyfer pob swydd. Os nad oes gan y person y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, yna maen orfodol arnynt I fynychu hyfforddiant a chyrraedd y lefel honno o fewn 6 mis, sef y cyfnod prawf (yn ddibynnol ar y sefyllfa), gyda chefnogaeth gan ein Swyddog Iaith Gymraeg. Bydd sgiliau iaith Gymraeg pob gwasanaeth yn cael eu monitor bob chew mis a bydd y Rheolwyr hefyd yn derbyn gwybodaeth am allu iaith Gymraeg gweithwyr o fewn eu gwasanaeth.

Argymhellion ar gyfer gwella/cynnydd pellach

Dyma'r prif feysydd yr ydym yn teimlo sydd angen canolbwyntio arnynt dros y flwyddyn nesaf;

Teclyn negeseuon iaith a negeseuon e-bost

Dros y flwyddyn nesaf, ein bwriad yw datblygu teclyn negeseuon iaith a negeseuon e-bost fel bod aelod o staff y Cyngor yn gwybod pa iaith i'w defnyddio wrth ysgrifennu e-bost at gydweithiwr. Ar hyn o bryd, mae staff yn defnyddio logo iaith gwaith (Cymraeg neu Dysgwr Cymraeg) ar waelod eu llofnod e-bost. Y broblem â hyn yw bod rhaid ysgrifennu e-bost yn ddwyieithog yn y lle cyntaf gan nad oes modd gweld llofnod e-bost y derbynnydd

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

nes eu bod wedi eich ateb, ac erbyn hynny, mae'n nhw wedi eich ateb yn eu dewis iaith nhw beth bynnag. Byddwn yn derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth er mwyn symud ymlaen ac i gael cyswllt gyda rhestr staff sydd â chyfrif e-bost. Y bwriad yw y bydd neges yn ymddangos uwchben enw staff yn dweud "Rydw i'n siarad Cymraeg / I can speak Welsh; Rydw i'n dysgu Cymraeg / I'm learning Welsh". Er ein bod yn bwriadu defnyddio'r dechneg hon, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r logo iaith gwaith er mwyn i gwsmeriaid wybod eu bod yn medru'r Gymraeg.

Strategaeth iaith Gymraeg

Mae gan y Cyngor Strategaeth iaith Gymraeg 5 mlynedd mewn grym eisod ond bydd angen ei hadnewyddu yn 2020/21 fel ei fod yn weithredol erbyn 2022. Felly ein blaenoriaeth yw cyflwyno Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf fydd yn gosod nod a thargedau uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod Sir Ddinbych yn Sir ble mae diwylliant a threftadaeth Cymraeg yn fyw a'r iaith Gymraeg yn ffynnu er mwyn ceisio cyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid ar osod target a chynllun gweithredu.

Cadw Cofnodion

Cwynion

Cofnodwyd tair cwyn ffurfiol gan Gomisiynydd y Gymrag yn ystod 2019-20 yng nghyswllt y Gymraeg. Roedd y rhain yn ymwneud â derbyn e-bost uniaith Saesneg yn dilyn cwblhau ffurflen Gymraeg ar-lein (dim ymchwiliad), polisi trefniadau cludiant i Ysgol y Cyngor (dim ymchwiliad) ac addysg uwchradd Gymraeg (ymchwiliad pellach).

Gweithle ddwyieithog

Cortynnau gwddf iaith Gwaith a dysgwyr

Rydym wedi dosbarthu llawer iawn o'r rhain i staff y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae galw mawr wedi bod amdanynt, yn enwedig mewn cartrefi gofal a chanolfannau hamdden ble mae nhw'n cael eu defnyddio gan hyfforddwyr, staff y dderbynfa ac

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

achubwyr bywyd. Rydym wedi derbyn nifer o sylwadau gan staff eu bod yn dechrau mwy o sgysiau yn y Gymraeg gan bod mwy o staff yn gwisgo'r cortynnau gwddf.

Safonau Iaith Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn disgwyl i'r Cyngor adrodd, yn ei adroddiad blynyddol, ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol. Rhoddir crynodeb o'r wybodaeth isod.

Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaeth.

- Rydym wedi cyfathrebu gyda staff ar ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn.
- Rydym wedi sicrhau bod y staff i gyd yn rhoi cyfle i bobl gael eu trosglwyddo at siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor.
- Rydym wedi cyflwyno un rhif ffôn ar gyfer prif switsfwrdd y Cyngor, sy'n rhoi'r opsiwn i bobl o ddewis Gwasanaeth Iaith Gymraeg.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyrau, gan roi cyfle i breswylwyr ofyn am ohebiaeth drwy'r Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym wedi cynnwys neges yn neges wedi'i recordio'r Ganolfan Gyswllt yn dweud bod llinell Iaith Gymraeg ar gael.
- Rydym wedi rhoi gwybod i staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus bod yn rhaid i gyhoeddusrwydd / gwahoddiadau fod yn Gymraeg bob tro, y dylid trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y medrant gyfrannu yn Gymraeg.
- Mae'r holl ddogfennau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo a dogfennau arddangosfa.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan yn ddwyieithog.
- Ymatebwn i bob ffurflen grant a dderbyniwn yn Gymraeg.
- Rydym wedi lansio ymgyrch hyrwyddo i farchnata cyfrifon cymdeithasol y Cyngor yn Gymraeg.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Rhestr o'r gweithredu a wnaed i gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu yn 2019/20

- Rydym wedi creu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar ein mewnwyd.
- Rydym wedi cyflwyno proses Adnoddau Dynol yn gofyn i'r holl staff a ydynt am dderbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu cyflogaeth, ac sy'n cyfeirio atynt yn bersonol, yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn gohebiaeth bapur am eu hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn dogfennau sy'n disgrifio eu cynllun gyrfa yn Gymraeg, a darparwn ddogfennau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt eisiau derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau hyblyg yn Gymraeg.
- Gall staff gyflwyno cwynion yn Gymraeg drwy weithdrefn cwynion corfforaethol gyda hyn wedi'i hysbysu i'r holl staff.
- Mae Gweithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi bod gan staff hawl i wneud cwyn yn Gymraeg ac i ymateb i gŵyn a wneir amdanynt yn Gymraeg. Mae staff wedi eu hysbysu o'r hawliau hyn.
- Rhoddir cyfle i'r holl staff ofyn am unrhyw gyfarfod yn ymwneud â chwynion yn eu herbyn yn Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).
- Bydd cofnod o bob penderfyniad am gŵyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg (a chynhelir unrhyw gyfarfod wedyn yn Gymraeg).
- Mae ein polisiâu Adnoddau Dynol yn nodi y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

- Mae meddalwedd cyfrifiadurol gwirio sillafu a gramadeg wedi'i roi i'r holl staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg ynghyd â rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (fel Microsoft Word) yn Gymraeg.
- Rydym wedi cyfieithu testun tudalen gartref ein mewnwyd i'r Gymraeg.
- Mae bob tudalen ar y fewnwyd sydd â thudalen gyfatebol yn Gymraeg yn cynnwys dolen i'r dudalen iaith Gymraeg honno.
- Crëwyd tudalennau ar y fewnwyd yn darparu gwasanaethau a deunyddiau cymorth er mwyn hybu'r Gymraeg a chynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar y fewnwyd yn Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni asesiad o sgiliau iaith Gymraeg ei staff drwy hunanasesiad.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo pob cyfle yn ystod oriau gwaith i staff fynychu cyrsiau iaith Gymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i staff sydd am barhau â'u hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol i dderbyn hyfforddiant pellach.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.
- Mae gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei rhoi i bob aelod newydd o staff.
- Rydym wedi rhoi geiriad i staff i'w ddefnyddio yn eu llofnodion e-bost i hysbysu pobl os ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.

Cynnydd gyda fframwaith 'Mwy na Geiriau'

Rhoi gwybod i holl staff mewnol a'r gwasanaethau a gomisiynwyd am y 'Cynnig Rhagweithiol'

Eleni mae'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth y sector o'r Cynnig Rhagweithiol wedi parhau. Cafwyd cyflwyniad mewn Cynhadledd i ddarparwyr Gofal ac mae eitemau am Mwy na Geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol yn cael eu cynnwys mewn Cylchlythyrau chwarterol i ddarparwyr. Mae posterï a chortynnau gwddf iaith Gwaith yn cael eu dosbarthu yn ogystal a sticeri iaith Gwaith.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Mae disgwyl i holl staff mewnol y Cyngor gwblhau modiwl e-ddysgu ar 'Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg' a mae staff sy'n newydd i'r Adran yn derbyn cyflwyniad am Mwy Na Geiriau fel rhan o'u cyflwyniad anwytho. Mae cyflwyniad tebyg yn cael ei roi i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol sydd wedi eu lleoli yn yr Awdurdod. Yn ogystal rydym wedi diweddarau y ffurflen 'lleoliadau' ar gyfer myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol er mwyn iddyn nhw nodi eu sgiliau iaith at ddiben paru efo Aseswyr penodol.

Yn ogystal mae cwrs hanner diwrnod wedi ei gynnal ar gyfer staff 'rheng flaen' a'r gwasanaeth Pwynt mynediad sengl. Bwriad y cwrs ydi sicrhau fod unigolion efo'r sgiliau i gyfarch a chwrdd â'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn gwneud y Cynnig Rhagweithiol.

Cynllunio'r gweithlu gan gynnwys recriwtio staff sydd a sgiliau iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac mae wrthi'n casglu gwybodaeth am lefel sgiliau'r staff - yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr wybodaeth yn ein helpu i nodi a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, yn ogystal â nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn casglu data'n flynyddol am sgiliau iaith staff yr holl ddarparwyr Gofal Cymdeithasol ar draws Cymru - fesul Awdurdod.

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws gweithfannau Gofal Cymdeithasol

Rydym wedi sicrhau bod y gweithfannau yn ymwybodol o'r adnoddau, yr apiau a'r cyrsiau sydd ar gael am ddim (i gynnwys cyrsiau ar-lein) ar gyfer staff sydd am ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r wybodaeth yma hefyd ar gael ar safle gwe mewnol y Cyngor.

Mae cwrs blasu'r Gymraeg byr wedi ei gynnal i weithwyr Gofal, yn ogystal â chwrs 'Rho gynnig ar dy Gymraeg' sydd wedi ei deilwra ar gyfer staff Gofal sydd wedi derbyn addysg ddwyieithog ond sydd angen magu'r hyder i ddefnyddio eu Cymraeg.

Mae 4 aelod o staff wedi mynychu cwrs Preswyl yn Nant Gwrtheyrn. Yn ogystal mae sesiynau 'paned a sgwrs' yn cael eu cynnal er mwyn rhoi cyfleoeodd i staff mewnol ymarfer eu Cymraeg.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Sgiliau Iaith Gymraeg Staff

Cyflwynir isod y wybodaeth sydd gan y Cyngor yn bresennol. Bwydir y wybodaeth yma'n ôl i'r gwasanaethau fel bo'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gallu Cynllunio eu Gweithluoedd.

Canlyniadau Corfforaethol yn unig (ac eithrio Ysgolion)

Lefel	Gwranddo / Siarad %	Darllen / Deall %	Ysgrifennu %
Lefel 0	14%	17%	25%
Lefel 1	37%	37%	30%
Lefel 2	11%	9%	10%
Lefel 3	6%	5%	5%
Lefel 4	7%	7%	5%
Lefel 5	6%	6%	5%
<i>Dim gwybodaeth</i>	20%	20%	20%
Cyfanswm	100%	100%	100%

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Canlyniadau Staff Ysgolion yn unig

Lefel	Nifer y staff	% y staff
Lefel 0	381	19.3%
Lefel 1	523	26.5%
Lefel 2	291	14.8%
Lefel 3	118	6.0%
Lefel 4	89	4.5%
Lefel 5	510	25.9%
Dim gwybodaeth	59	3.0%
Cyfanswm	1971	100%

Recriwtio – Swyddi â hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn

Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbyswyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/2020. Roedd gennym y gofynion iaith Gymraeg canlynol ar ein swyddi gwag a hysbysebwyd ar gyfer swyddi dan gontract:

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Dynodiad	Nifer y swyddi fesul categori iaith	% y swyddi fesul categori iaith
Dymunol	634	87.9%
Hanfodol	83	11.5%
Ddim yn hanfodol	4	0.6%
Cyfanswm	721	100%

Noder: y pedair swydd wag lle barnwyd nad oedd y Gymraeg yn hanfodol oedd glanhawr, gofalwr, athro Ffrangeg ac athro.

Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd

Gwelir isod fanylion am nifer / canran y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2019-20.

Atodiad 1 - Ymwybyddiaeth iaith (yn cynnwys ysgolion)

Statws	%
wedi'i gwblhau	46.8%
heb ei gwblhau	53.2%

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Atodiad 2 - Amrywiol gyrsiau a gynhaliwyd yn Gymraeg

Dyddiad	Manylion	Nifer wnaeth fynychu
09/07/2019	Cwrs blasu'r Gymraeg	9
03/10/2019	Cwrs cyfarch y cyhoedd yn Gymraeg	23
22/01/2020- 23/01/2020	Rho gynnig ar dy Gymraeg (cwrs 2 ddiwrnod)	5
28/01/2020	Trydar yn Gymraeg	4
07/02/2020	Mwy na geiriau – gweithdy ar gyfer Rheolwyr CSS a'r Adran blant	9

Cyfanswm nifer wnaeth fynychu: 50

Cynllun Gweithredu Grŵp Strategol y Gymraeg

Prif lwyddiannau / uchafbwyntiau:-

Canolfan y Gymraeg Llanelwy – Yn ystod y flwyddyn mae'r prosiect hwn wedi ei ddatblygu gyda'r broses tendr wedi ei chyflawni ynghyd a chymeradwyaeth i gais cynllunio i gael mwy o leoedd parcio ar y safle. Mae hyn yn caniatáu i'r gwaith ailwampio gymryd lle yn ystod dechrau 2020. Mae'r gwaith cyfalaf yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru.

Hyfforddi staff – Yn ystod 2019 mae 10 aelod o staff o 5 ysgol wedi mynychu'r cwrs sabothol. Ynghyd a hyn mae 24 aelod o staff eraill o ysgolion yn cael hyfforddiant ac arweiniad tymhorol.

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2019-20

Cynnydd yn y canran o blant sydd yn trosglwyddo o CA2 i CA3 – Yn 2018 roedd y canran sy'n trosglwyddo o CA2 i CA3 yn 88%. Yn 2019 mae hyn wedi cynyddu i 93%.

Grant Gofal Plant – Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi sicrhau grant cyfalaf i gefnogi lleoedd gofal cyn ysgol yn Dinbych a Rhyl. Yn 2019 trosglwyddodd 94% o'r plant Cylchoedd Meithrin i ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg. Bydd y grant yn golygu adleoli Cylch Bodawen (54% yn trosglwyddo) a Cylch Rhuddlan (86% yn trosglwyddo) i safleoedd Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Dewi Sant.

Nifer disgyblion cynradd yn derbyn addysg Gymraeg – Yn 2017 roedd 2028 o ddisgyblion cynradd llawn amser yn ein ysgolion yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Yn Medi 2019 roedd 2069 o ddisgyblion cynradd yn ein ysgolion. Mae hyn yn gynydd o 2%.